Rhoi Bro Ddyfi'n Gyntaf

Nod Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Bro Ddyfi a Fforwm Cymuned Leol Machynlleth a'r Cylch yw cael pobl leol i gymryd rhan mewn gwella ein hardal. Rydym yn dod ag arian a chefnogaeth i mewn o wahanol ffynonellau, annog dulliau newydd o ddelio â phroblemau, a chynnwys pawb wrth weithio gyda'n gilydd i wneud Bro Ddyfi yn lle gwell i fyw a gweithio.

Mae'r Bartneriaeth a'i gweithgorau yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau perthnasol yn ogystal ag unigolion o Lanbrynmair, Glantwymyn, Cadfarch, a Machynlleth. Mae croeso i chi daro heibio'r swyddfa neu ddod i'n cyfarfodydd, sy'n cael eu cynnal yn ddwyieithog.

Holwyd chi:

"Beth ydych chi'n ei werthfawrogi am fyw ym Mro Ddyfi?
Beth yw'r problemau? a
Beth allwn ni ei wneud i wella pethau?"

Dywedsoch chi:

"Mae gan lawer ohonom ansawdd bywyd da mewn amgylchedd hyfryd, ond mae peth ohono o dan fygythiad ac mae rhai ohonom yn colli allan."

Cynigiwyd llawer o welliannau gennych, ond o'r rheiny roeddech yn meddwl mai swyddi, tai fforddiadwy a chludiant oedd y meysydd gweithredu pwysicaf.

Nes ymlaen yn y daflen hon rydym yn disgrifio eich dyheadau chi am y saith thema sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Gellir gweld eich pryderon am yr iaith Gymraeg, gofal plant, yr henoed a phobl ifanc drwy'r cyfan.